

Rhaglen

Gymrodoriaeth g39

Menter pum mlynedd gan g39,
wedi'i chefnogi gan Raglen
Artistiaid Freelands.

Mae Rhaglen Gymrodoriaeth g39 yn digwydd bob dwy flynedd ac yn cefnogi grŵp newydd o artistiaid i ddatblygu eu gwaith. Mae'n rhan o Raglen Artistiaid Freelands, ac yn digwydd ochr yn ochr â mentrau cyfwerth a drefnir gan PS2 (Paragon Studios/Project Space) ym Melfast, Oriel Site yn Sheffield, ac Oriel Talbot Rice ym Mhrifysgol Caeredin.

Trosolwg:

Manylion:	Rhaglen datblygu artistiaid
Cymhwyster:	Artist gweledol sy'n byw yng Nghymru ac sy'n gweithio mewn unrhyw gyfrwng
Dyddiad cau:	01/09/20
Dyddiadau Rhaglen:	Rhwng Ion 2021 – Rhag 2022

Beth yn union sy'n cael ei gynnig?

Bydd pob artist yn derbyn: Ffi o £10,000 dros ddwy flynedd
Y rhaglen a ddisgrifir isod

Mae'r canlynol hefyd ar gael i'r artistiaid:

Costau llety a theithio i artistiaid sy'n byw dros ddwy awr i ffwrdd o Gaerdydd, Costau tuag at unrhyw ofynion hygrychedd penodol

Cyfle:

Croesawn geisiadau ar gyfer rhaglen ddatblygu artistig, sydd wedi'i anelu at egin artistiaid. Mae pum lle ar gael fel rhan o'r rhaglen strwythuredig hon. Mae'n cynnig deuddeg mis o gefnogaeth dros gyfnod o ddwy flynedd (chwe mis yn y flwyddyn gyntaf a chwe mis yn yr ail).

Fel rhan o'r rhaglen bydd modd i chi ddefnyddio g39 fel stiwdio a gofod ar gyfer eich ymchwil hunangyfeiriedig. Byddwn yn rhoi gorïad i chi i'r adeilad. Caniateir hyn fynediad 24-awr i'r stiwdio, sinema, llyfrgell, meddalwedd dylunio a golygu yn ogystal ag offer adeiladu ac offer fideo (AV). Byddwch yn derbyn cefnogaeth ar ffurf gweithdai a hyfforddiant ac amser cyswllt gyda mentoriaid, artistiaid gwadd, curaduron a staff g39. Caiff hyn ei drefnu gan g39 a Rhaglen Artistiaid Freelands.

Bydd gennych chi hefyd fynediad at raglen ehangach g39 o siaradwyr gwadd a darlithwyr, sesiynau grŵp ar gyfer cael beirniadaeth gan gyfoedion, diwrnodau cwrdd i ffwrdd, ymweliadau ymchwil, cyfleoedd rhwydweithio o bell a gweithgareddau cymdeithasol.

Yn ogystal, bydd Rhaglen Artistiaid Freelands yn trefnu symposiwm blynyddol ac arddangosfa i bob un a gymerodd ran ar ddiwedd pob carfan ddwy flynedd.

I bwy mae'r cyfle hwn?

Rydyn ni'n croesawu ceisiadau gan bobl ni waeth beth yw eu hanabledd, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, statws priodasol, cyfrifoldeb teulu, oedran, tarddiad ethnig, cenedligrwydd (yn amodol ar drwydded gwaith os fydd angen), aelodaeth/gweithgarwch i undeb lafur, credoau gwleidyddol neu grefyddol person.

Rydyn ni wedi ymrwymo i gefnogi mwy o geisiadau a chomisiynau gan artistiaid y mae eu cefndir/hunaniaeth wedi'u tangynrychioli yn y rhaglen, yn ein hadnoddau ac ymhlith staff a bwrdd g39. Mae hyn yn cynnwys; artistiaid Duon, Asiaidd a'r rheiny o gefndiroedd ethnig amrywiol, artistiaid o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is, artistiaid B/byddar, artistiaid niwroamrywiol, artistiaid gydag anableddau neu anawsterau iechydol hirdymor ac artistiaid sy'n perthyn i'r gymuned LGBTQIA+.

Ar hyn o bryd rydym yn casglu'r wybodaeth hon ar wahân i'n helpu i fonitro ein rhaglen, ond mae'n anhysbys. Os hoffech i ni ystyried eich cefndir neu hunaniaeth yn ystod y broses ddethol, gofynnwn yn garedig i chi roi gwybod i ni yn eich cais.

Ydy'r rhaglen yn addas i mi?

Rydyn ni'n chwilio am yr unigolion hynny a fydd yn elwa fwyaf o'r gefnogaeth a'r sgyrsiau sydd ar gael. I ymgeisio dylech chi fod yn:

[Artist gweledol - yn gweithio mewn unrhyw gyfrwng](#)

[Byw yng Nghymru](#)

[Artist sy'n ymarfer ers dros dair blynedd](#)

[Yn y broses o sefydlu gyrfa](#)

Dylech fod wedi ymrwymo i ddatblygu arfer greadigol ragorol, dylech fod yn uchelgeisiol ac yn agored i weithio mewn amgylchfyd stiwdio lle gallwch ymgysylltu a gweithio ochr yn ochr ag eraill. Gofynnwn i chi fod ar gael i fynychu amserlen lawn o weithgarwch y rhaglen.

Nid yw'r cyfle hwn yn agored i artistiaid sydd mewn addysg swyddogol yn ystod cyfnod y rhaglen.

Nid ydyn chwaith yn chwilio am gynigion ar gyfer arddangosfa na chwaith syniadau prosiect.

Cysylltwch â ni.

Rydyn ni'n gweithio i sicrhau bod ein cyfleoedd yn hygyrch a bod y broses o ymgeisio yn hwylus ac yn hawdd i'w ddefnyddio. Rydym ni'n croesawu ac yn annog ceisiadau gan unigolion sy'n wynebu rhwystrau, ac yn gobeithio y gallwn ddiwallu anghenion cynifer o ymgeiswyr â phosib.

Mae cymorth gyda hygyrchedd ar gael i bob ymgeisydd, gan gynnwys fformatau gwahanol a chefnogaeth sydd wedi'i deilwra'n arbennig. Os hoffech chi dderbyn y ffurflen hon ar fformat gwahanol, neu os hoffech ymgeisio drwy ddull gwahanol (e.e. ar bapur, drwy fformat sain / fideo, neu fersiwn print bras), cysylltwch â ni os gwelwch yn dda. Byddwn yn hapus i drafod ffyrdd eraill o gyflwyno'ch cais.

Yn yr un modd, os oes gennych chi ofynion hygyrchedd yr hoffech drafod â ni cyn gwneud cais, cysylltwch â ni. Rydyn ni'n clustnodi cyllideb ar gyfer cefnogi anghenion hygyrchedd unigolion. Mae g39 yn adeilad un llawr sy'n hygyrch i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn.

Cysylltwch â post@g39.org neu ffoniwch +44(0)2920 473 633 a gadewch neges os gwelwch yn dda. Rydyn ni'n gweithio rhan amser, a byddwn yn cydnabod eich neges o fewn tri diwrnod gwaith ac yn ymgeisio i ateb eich ymholiad neu drefnu amser a dyddiad i sgwrsio ymhellach o fewn pum niwrnod gwaith.

Os oes gennych chi gwestiynau pellach cymerwch olwg ar yr adran Cwestiynau Cyffredin. Byddwn hefyd yn cynnal sesiynau cynghori ar ffurf dau weithdy grŵp mynediad agored, drwy gyfrwng ZOOM ddydd Sadwrn 8 Awst (08/08/20) a dydd Mercher 12 Awst (12/08/20).

Yn ystod y sesiynau hyn bydd cyfle i chi gyfarfod aelod o dîm g39 cyn dechrau ar eich cais. Nid yw'n bosib i ni ddarllen ceisiadau drafft na gwaith ysgrifenedig, ond gallwn drafod eich cymhwyster a natur y rhaglen a'ch cynghori ar sut i gryfhau eich cais.

Archebwch le:

<https://www.eventbrite.co.uk/e/g39-fellowship-faq-open-session-via-zoom-registration-113762227886>

Sut i wneud cais

Gallwch anfon eich cais ar e-bost. 01/09/20 yw'r dyddiad cau. Dylai ceisiadau ysgrifenedig gael eu hanfon fel ffeil PDF unigol (llai na 10mb o faint). Gofynnwn i chi e-bostio'ch cais at curator@g39.org gyda'r pennawd 'Cymrodoriaeth g39 [EICH_ENW]'. Byddwch yn derbyn cydnabyddiaeth awtomatig a dolen i ffurflen fonitro cydraddoldeb sy'n wirfoddol. Dim ond un cais fesul artist byddwn yn ei dderbyn.

Cofiwch gynnwys:

1. Pwy ydych chi:

Nodwch eich enw a manylion cyswllt (cyfeiriad e-bost, cyfeiriad post a rhif ffôn, neu'r ffordd orau i ni gysylltu â chi).

2. Beth ydych chi'n ei wneud (uchafswm o 700 gair):

Ynglŷn â'ch arfer greadigol: Dechreuwch eich cais drwy ddweud wrthon ni am eich gwaith a'r hyn sydd wedi apelio'n benodol am y rhaglen. Efallai

hoffech chi ystyried un darn o waith penodol, arddangosfa ddiweddar, adeg benodol o'ch gyrfa, ac / neu eich amgylchiadau.

Beth rydych chi wedi'i wneud eisoes: Dwedwch wrthon ni am y gwaith mwyaf diweddar rydych chi wedi'i greu / yn ei greu ar hyn o bryd. Byddwch mor glir a syml a phosib yn eich disgrifiad.

Beth hoffech chi ei wneud: Rhannwch gyda ni sut gallai'r cyfle hwn eich helpu chi i gyflawni'r hyn sydd wedi bod y tu hwnt i'ch cyrraedd. Sut fydd y rhaglen yn eich galluogi chi i grisialu'ch ymchwil gyfredol, ffocysu'ch gwaith a / neu ddatblygu'ch arfer greadigol a'ch gyrfa? Soniwch yn eich cais am sut gallai'r rhaglen drawsnewid / gwneud gwahaniaeth go iawn i'ch arfer greadigol.

Ceisiwch fod mor glir â phosib yn eich cais, gan roi digon o fanylder. Helpwch ni weld beth rydych chi'n ei gynnig ar gyfer y rhaglen.

Cadwch at ddim mwy na 700 o eiriau ar draws tri chwestiwn yr ail adran.

3. Eich Gwaith:

Anfonwch: Detholiad o hyd at ddeg delwedd neu weithiau wedi'u hamseru at hyd at 5 munud o hyd, neu gyfuniad o'r ddau.

Os hoffech i ni wyllo'ch gwaith ar-lein, anfonwch ddolenni i'ch gwefan / gwefannau sy'n lletya eich gwaith Sain/Fideo. Anfonwch fanylion am ba waith hoffech i ni wyllo, yn ogystal â chyfrineiriau. Cofiwch gynnwys manylion y delweddau / fideos / gwaith sain rydych chi'n eu hanfon aton ni (teitl, cyfrwng, blwyddyn a.y.y.b).

CV cyfredol: Os yw eich CV yn bodoli ar-lein, anfonwch ddolen ato os gwelwch yn dda.

Eiriolwyr: Anfonwch enwau a manylion cyswllt (rhif ffôn a chyfeiriad e-bost) dau berson yr hoffech ddarparu geirda ar eich cyfer, yn benodol am eich gwaith. Byddwn ond yn cysylltu â nhw os cewch chi eich gwahodd am gyfweliad.

Dyddiad cau: 01/09/20

Beth fydd yn digwydd nesaf:

Caiff pob cynnig ei adolygu gan banel sy'n cynnwys pedwar aelod o staff g39 a detholydd allanol. Bydd ceisiadau'n cael eu hadolygu gan bob aelod o'r panel yn unigol, gyda phob aelod yn ysgrifennu nodiadau. Wedyn bydd y panel yn cyfarfod i drafod a chreu rhestr fer o hyd at ddeuddeg artist. Bydd yr artistiaid yn derbyn gwahoddiad am gyfweliad yn g39 yng Nghaerdydd (naill ai wyneb yn wyneb neu'n rhithiol). O'r cyfweliadau hyn bydd dau aelod o staff g39 a detholydd allanol (sydd a'r bleidlais fwrw) yn dethol ac yn cyfweld â'r pum artist llwyddiannus.

Nodwch na fyddwn yn gallu cynnig adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus.

Cwestiynau Cyffredin

Beth ydych chi'n ei olygu gan 'egin artist'?

Ydw i ar gyhwyn fy ngyrfa?

Rydyn ni wedi datblygu'r cyfle hwn ar gyfer artistiaid sydd heb wireddu eu huchelgais eto. Nid oes gennym ni syniadau pendant ynglŷn â beth yw'r uchelgais, na be ddylai fod yn uchelgais. Gwyddwn nad yw llwybr gyrfa yn syml ac mae llwyddiant yn golygu rhywbeth gwahanol i bawb.

Gobeithiwn, mewn ffordd, bod modd i bawb ystyried eu hunain yn egin artistiaid. Ni fyddwn yn ystyried oedran yr artist wrth benderfynu ar gymhwyster yr ymgeisydd. Dydyn ni ddim eisiau gwahaniaethu ac eithrio pobl.

Os ydych chi'n teimlo y byddai'ch gwaith yn elwa'n sylweddol o'r rhaglen hon, croesawn eich cais ar gyfer y rhaglen gymrodoriaeth.

Beth ydych chi'n ei olygu gan 'addysg ffurfiol'?

Rydyn ni'n diffinio addysg 'ffurfiol' fel unrhyw gwrs neu astudiaeth fydd yn arwain at gymhwyster ffurfiol. Mae hyn yn cynnwys ond ddim yn gyfyngedig i gyrsiau prifysgol/coleg, yn cynnwys astudiaethau PhD. Nid yw 'hyfforddiant' yn perthyn i'r categori hwn.

Ydy'n bosib i mi gyflwyno cyfuniad o fideo, gwaith sain, testun a delweddau fel enghreifftiau o fy ngwaith?

Mae croeso i chi anfon cyfuniad o wahanol gyfryngau. Anfonwch beth bynnag fydd yn adlewyrchu eich gwaith orau, a'r darnau sy'n fwyaf perthnasol i'ch cais.

Cofiwch mai amser cyfyngedig fyddwn ni'n ei dreulio yn adolygu gwaith pob ymgeisydd.

Ystyriwch, er enghraifft, anfon 5 delwedd a chlip 2.5 munud o hyd o waith fideo neu sain yn hytrach na 10 delwedd a chlip 5 munud o fideo. Cofiwch sicrhau bod dolenni yn gweithio ac eich bod wedi anfon unrhyw gyfrineiriau angenrheidiol aton ni. Os ydych chi wedi cytuno i anfon eich cais gyda'r post, peidiwch ag anfon darnau gwreiddiol. Ni fydd modd i ni ddychwelyd unrhyw waith a ddaw gyda'ch cais.

Mae gen i anabledd; sut a phryd dylwn i drafod hyn yn y broses ymgeisio?

Os yw eich anabledd yn sail i'ch arfer greadigoll (e.e. mae'n destun pwnc) byddai'n gwneud synnwyr i gynnwys hyn yn eich cais ysgrifenedig.

Os fyddai'n well gennych chi petai'ch cais yn cael ei ystyried heb i'r panel wybod am eich anabledd, mae croeso i chi ddarparu'r wybodaeth wrth drafod unrhyw ofynion hygyrchedd os fyddwch yn cael eich gwahodd am gyfweliad.

Neu, os fyddai'n well gennych chi, gallwch drafod unrhyw gefnogaeth byddwch chi ei angen gan g39 yn ystod eich cyfweliad.

Pa gostau hygyrchedd galla i hawlio?

Mae modd i gostau hygyrchedd gynnwys gofynion hygyrchedd penodol, gofal plant / gofal dibynyddion a llety yng Nghaerdydd i artistiaid sy'n byw dros ddwy awr i ffwrdd. Rydyn ni'n agored i drafod hyn gyda chi.

Pa gostau teithio a llety galla i hawlio?

Gallwch hawlio costau ar gyfer eich gwaith ymchwil a datblygiad, gan gynnwys teithio i sesiynau un i un a chyfarfodydd a gymeradwywyd sy'n digwydd tu allan i Gaerdydd. Rydyn ni hefyd yn ymwybodol y byddwch, o bosib, angen hawlio costau llety ar gyfer dibynyddion, aelodau teulu neu ofalwyr. Mae croeso i chi drafod hyn gyda ni ar unrhyw gam o'r broses.

Mae hyn yn ogystal i'r gyllideb deithio sydd wedi'i neilltuo ar gyfer pob artist. Ei fwriad yw sicrhau bod y rhaglen yn agored i artistiaid o bob rhan o Gymru.

Pam na cha'i ofyn am adborth?

Rydyn ni staff g39 yn dîm bach o artistiaid a gwyddwn mor werthfawr gall adborth fod, yn enwedig ar ôl treulio amser ar gais. Bydd panel - yn unigol ac wedyn ar y cyd - yn adolygu ac yn trafod eich cais. Yn anffodus oherwydd y nifer uchel o geisiadau byddwn ni'n eu derbyn ar gyfer y rhaglen hon, nid yw'n

bosib i ni gydlynu adborth gan bob aelod o'r panel ar gyfer bob ymgeisydd.

Fodd bynnag, mae mwy nag un ffordd i chi sgwrsio â ni. Os hoffech chi drafod eich gwaith gyda ni, neu os hoffech ddarganfod rhagor am g39, beth am fanteisio ar y sgysiau un i un sydd ar gael drwy gydol y flwyddyn fel rhan o gynllun Warp? Gallwn ddefnyddio'r sesiynau hyn i drafod eich gwaith a'ch datblygiad mewn mwy o fanylder.

Rwy'n ystyried fy hun yn artist, ond ni astudiais gelf. Ydy hyn yn dderbyniol?

Ydy. Byddwn yn edrych am dystiolaeth o arfer gelf weledol gyfoes ac ymrwymiad i ddatblygu yn eich maes, yn hytrach na chymwysterau. Rydyn ni hefyd yn ymwybodol iawn bod arfer gyfoes yn cyfuno sawl genre a dull, ac rydyn ni'n edrych ymlaen at glywed am ddisgyblaethau sy'n cydgysylltu.

Pam oes raid i mi ddweud wrthoch chi am fy nghefnidir a'm hunaniaeth?

Mae g39 yn dilyn polisi o Weithredu Cadarnhaol, fel y diffiniwyd yng Nghod Statudol Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn caniatáu gweithredu mewn modd sy'n sicrhau canlyniadau mwy effeithiol i unigolion sy'n perthyn i grwpiau sy'n wynebu anfantais gymdeithasol neu ariannol. Mae hefyd yn diogelu unigolion sy'n wynebu gwahaniaethu ar ffactor neu anfantais arall boed yn y gorffennol neu heddiw.

Ar ôl anfon eich cais byddwch yn derbyn dolen i ffurflen fonitro cydraddoldeb wirfoddol. Nodwch fod y ffurflen hon yn ddiennw ac ni fydd eich atebion yn cael eu cysylltu i'ch ffurflen gais.

Ni fyddwn yn cymryd unrhyw beth yn ganiataol am gefndir, hunaniaeth na chategoreiddiad ymgeiswyr. Os ydych chi am i ni ystyried eich cais yng nghyd-destun y ffactorau hyn, gofynnwn i chi nodi hyn yn eich cais.

Pam mai deuddeg mis o gefnogaeth sydd ar gael pan fo'r rhaglen yn ddwy flynedd o hyd?

Mae rhaglen y gymrodoriaeth fel arfer yn digwydd dros ddau floc o chwe mis. Bydd pob artist sy'n cymryd rhan yn y rhaglen yn cael gofod stiwdio yn g39 am chwe mis. Mae bron bob gweithgaredd yn digwydd o fewn y cyfnod hwn o chwe mis. Mae'r ail gyfnod o chwe mis yn amser i ni gynllunio a ffocysu ar ein rhaglenni eraill.

Mae pandemig Covid-19 a'r cyfnod cloi wedi effeithio ar strwythur ein rhaglen ar gyfer y blynyddoedd nesaf, ac felly ni wyddom yn union beth fydd ddyddiadau'r rhaglen. Bydd y chwe mis cyntaf yn digwydd yn 2021 a'r ail gyfnod o chwe mis yn digwydd yn 2022.

Nid wyf am symud stiwdio, ond hoffwn fod yn rhan o'r rhaglen. Ydy hyn yn bosib?

Rydyn ni'n ymwybodol y bydd rhai pobl yn cael hi'n haws gweithio mewn gofod arall yn hytrach na stiwdio g39. Mae hynny'n iawn. Rydyn ni'n cynnal y rhaglen er mwyn cefnogi eich arfer greadigol ac mae croeso i chi barhau gyda'ch gwaith rhywle arall. Gofynnwn i chi gadw mewn cysylltiad a mynychu sesiynau hyfforddi / digwyddiadau / gweithgareddau cymdeithasol yn g39, er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyfle a'r adnoddau sydd ar gael.

Dw i heb ddod o hyd i ateb i gwestiwn sydd gen i:

Gofynnwn i chi e-bostio ni gydag unrhyw ymholiad arall. Ni fyddwn yn darllen ceisiadau na thestun drafft, ond gallwn drafod eich syniadau a'ch cynghori ar sut i'w cryfhau er mwyn eu cyflwyno yn eich cais.

Anfonwch eich cwestiynau at post@g39.org neu ffoniwch +44(0)2920 473 633 a gadewch neges. Rydyn ni'n gweithio rhan amser, a byddwn yn cydnabod eich neges o fewn tri diwrnod gwaith ac yn ymgeisio i ateb eich ymholiad neu drefnu amser a dyddiad i sgwrsio ymhellach o fewn pum niwrnod gwaith.

Gwybodaeth bellach

Ynglŷn â g39 a Warp

Mae g39 yn sefydliad dan arweiniad artistiaid wedi'i leoli yng Nghaerdydd. Mae'r sefydliad wedi ymrwymo i gomisiynu, datblygu a chyflwyno celf gyfoes. Fel oriel, cymuned ac adnodd, mae g39 yn rhan hollbwysig o'r sin gelf dan arweiniad artistiaid yn y DU. Mae'n hafan i gymuned greadigol y wlad ac yn lle i gynulleidfaoedd ymwneud â chelf gyfoes. Ers symud safle yn 2011, g39 yw un o'r safleoedd mwyaf ar gyfer celf weledol gyfoes yng Nghymru. Yn sgil y gefnogaeth a'r arddangosfeydd mae'n ei gynnig i artistiaid cyfoes, mae g39 yn cael ei gydnabod yn rhan hanfodol o rwydweithiau diwylliannol Cymru a'r DU.

Warp (Wales Artist Resource Programme) yw rhaglen gefnogaeth g39 ar gyfer arfer greadigol. Mae'n cynnig sesiynau ar gyfer cael beirniadaeth gan gyfoedion, sgyrsgiau artistiaid-curaduron, gweithdai, seminarau, mentora, datblygiad proffesiynol ac ymweliadau. Mae Warp yn darparu rhwydwaith feirniadol a chymdeithasol ar gyfer cymuned greadigol Cymru a thu hwnt.

Mae Warp a g39 yn darparu ystod eang o weithgareddau i artistiaid ar bob cam o'u gyrfa ac o amrywiol genhedloedd. Mae nifer o'r artistiaid sydd wedi derbyn cefnogaeth gan g39 ar ddechrau'u gyrfa, megis James Richards, Heather Phillipson, Megan Broadmeadow, Sean Edwards a Bedwyr Williams wedi datblygu enw da iawn. Yn aml bydd g39 yn cydweithio ag orielau o bedwar ban byd, er mwyn arddangos gwaith artistiaid Cymreig dramor, yn ogystal â chyflwyno a chyd-guradu arddangosfeydd o wledydd eraill.

Ynglŷn â Rhaglen Artistiaid Freelands

Menter newydd yw Rhaglen Artistiaid Freelands sy'n rhedeg ledled y DU. Cynlluniwyd y rhaglen er mwyn cefnogi a thyfu ecosystemau celfyddydol rhanbarthol, drwy feithrin cysylltiadau ac annog cydweithio rhwng egin artistiaid a sefydliadau celfyddydol.

Ei nod yw cefnogi grŵp o sefydliadau celfyddydol uchelgeisiol i drawsnewid dyfodol wythdeg o egin artistiaid dros gyfnod o bum mlynedd. Ei fwriad hefyd yw creu gwaddol o addewid a phosibilrwydd o fewn yr ecosystemau celfyddydol hyn a chreu cyfleoedd i'r cyhoedd ymgysylltu â'r gwaith.

Mae'r rhaglen newydd hon yn darparu cyllid o £1.5 miliwn dros gyfnod o bum mlynedd i bedwar sefydliad celfyddydol. O fewn y swm hwn mae cyllideb gynhwysfawr i bob sefydliad ar gyfer rhaglennu a recriwtio staff ychwanegol os fydd angen. Mae hefyd yn cynnwys grantiau unigol i bob artist dethol a chostau teithio pob sefydliad ar gyfer y symposiwm cenedlaethol. Nod y symposiwm yw rhannu arfer orau a'r hyn mae'r cyfranogwyr wedi'i ddysgu.

<http://freelandsfoundation.co.uk>